# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 7 CHWEFROR 2019

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Peter Garlick, Simon Glyn (Cadeirydd), Aled W Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Catrin Wager, Gethin Glyn Williams, Owain Williams a Gruffydd Williams.

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Griffiths (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Rhydian Roberts (Prif Beiriannydd Ymgynghoriaeth Gwynedd)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Cynghorydd Gareth Griffiths (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Steffan Jones (Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Amanda Murray (Rheolwr Prosiect Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Bethan Roberts (Cydlynydd Cynghorau Cymuned a Grwpiau Cymunedol)

Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen – Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol)

Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen – Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro) a Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Keith Jones ac Annwen Hughes

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13.12.2018 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 5. GWEITHREDU IS-DDEDDFAU DRAENIO TIR

Cyflwynwyd adroddiad gan Brif Beiriannydd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn manylu ar gefndir a phwrpas llunio cyfres newydd o is-ddeddfau fyddai'n cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i atal llifogydd a rheoli gweithgareddau ar hyd dyfrffosydd cyffredin yn fwy effeithiol a chyson. Eglurwyd bod hyn mewn ymateb i'r Cynghorau yng Nghymru yn derbyn pwerau a chyfrifoldebau ychwanegol i reoli llifogydd a dŵr wyneb o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Cyfeiriwyd at yr is-ddeddfau newydd oedd ynghlwm â'r adroddiad ac ategwyd eu bod wedi eu cynllunio i weithio ochr yn ochr â'r fframwaith rheoleiddio presennol a ddarparwyd o dan Ddeddf Draenio Tir 1991 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Nodwyd na fyddai mabwysiadu'r is-ddeddfau yn cael effaith ar lefel staffio presennol yr Uned.

Amlygwyd bod cyfnod o ymgynghori cyhoeddus wedi ei gynnal rhwng 15fed o Dachwedd a 13eg o Ragfyr 2018, ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

Ynghyd â chynorthwyo'r Awdurdodau Lleol i atal llifogydd a mynd i'r afael a'r peryglon mwyaf difrifol amlygwyd bod yr is-ddeddfau, drwy addasu geirfa ac amlinellu'r math o weithgareddau sydd dan sylw, o lês i'r amgylchedd yn gyffredinol. Drwy wneud hyn byddai'r is-ddeddfau o fudd i feysydd eraill ym myd gwaith Llywodraeth Leol ac yn gymorth i wireddu amcanion deddfau eraill sydd yn cynnwys Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr a Chyfarwyddeb y Cynefinoedd.

Nodwyd mai bwriad yr adroddiad oedd i aelodau'r Pwyllgor Craffu asesu'r is-ddeddfau newydd ac argymell i'r Cyngor Llawn eu mabwysiadu'n ffurfiol. Yn dilyn penderfynia dy Cyngor ar y 7fed o Fawrth 2019, bydd datganiad polisi yn cael ei lunio yn amlygu sut byddai'r is-ddeddfau yn cael eu gweithredu a beth fydd y newidiadau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r hyn sydd yn cael i gario lawr yr afonydd amlygwyd mai sylwadau am risgiau llifogydd fydd yn cael eu hystyried.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwarchod anifeiliaid maes, amlygwyd mai cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw gwaith cynnal a chadw

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r broses ymgynghori nodwyd bod Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi dilyn canllawiau ymgynghori Llywodraeth Cymru ac felly heb gysylltu yn uniongyrchol gyda datblygwyr oherwydd eu bod yn derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn. Ategwyd y byddai ymgynghori gyda'r datblygwr yn cael ei ystyried yn ystod y drefn cynllunio lle bydd Swyddogion yr Uned Dŵr ac Amgylchedd yn cynnig sylwadau ar geisiadau. Mewn sylw pellach ynglŷn ag ymgynghori gydag Undebau Amaeth nodwyd eto bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn tybio bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud hyn.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag effaith y cyfrifoldebau ychwanegol ar lwyth gwaith a lefelau staffio'r Uned Dŵr ac Amgylchedd, nodwyd, drwy weithio yn rhesymol a synhwyrol ni ystyriwyd y byddai angen adnodd ychwanegol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod angen hysbysu pobl o'r newidiadau gan amlinellu'r amser y bydd yr

is-ddeddfau yn dod i rym

- Bod angen caniatâd i blannu coed yn gam rhy bell (Pennod 3 (9)
- Bod angen gofyn i Lywodraeth Cymru gyda phwy y maent wedi ymgynghori a chynnwys y wybodaeth yma yn yr adroddiad terfynol fyddai yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.
- Derbyn mai 'gorchymyn' i weithredu sydd wedi ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i Wynedd, ond angen sicrhau ymgynghoriad teg.

**PENDERFYNWYD**

- **derbyn yr adroddiad yn ddarostyngedig i gynnwys gwybodaeth am fanylion trefniadau ymgynghori Llywodraeth Cymru i'r is-ddeddfau yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 7fed o Fawrth 2019**
- **Argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r is-ddeddfau yn ffurfiol.**

## 6. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar effaith y toriadau ar doiledau cyhoeddus y Sir a chynlluniau sydd gan y Gwasanaeth i'r dyfodol drwy ddatblygiad y strategaeth arfaethedig fydd i'w mabwysiadu a'i chyhoeddi erbyn 31 Mai 2019. Nodwyd, yn dilyn penderfyniad Her Gwynedd i gyflawni toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy wireddu'r Cynllun Partneriaethau gyda Chynghorau Cymuned a Thref bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw hyd at 63 o doiledau ar agor yn y Sir. Ategwyd bod gan y Sir ddarpariaeth o 35 o doiledau cymunedol sydd yn rhan o Gynllun Grant Toiledau Cymunedol.

Mewn ymateb i Rhan 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau ac yna defnyddio dulliau strategol a thryloyw i ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posib. Wrth ddatblygu'r strategaeth, amlygwyd bod opsiynau ehangach wedi eu hystyried fydd yn mynd i'r afael a'r heriau presennol sydd yn ymwneud a darparu cyfleusterau mewn cymunedau a hynny gyda lleihad yng nghyllideb y gwasanaeth. Tynnwyd sylw at yr amserlen oedd yn amlygu'r camau allweddol at gyhoeddi'r strategaeth.

Croesawyd y wybodaeth a'r gwaith calonogol oedd wedi ei wneud

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod angen arwyddion ffordd i dynnu sylw at yr adnoddau oddi ar lonydd prysur – yr arwyddion i gynnig gwybodaeth a chyfarwyddiadau
- Croesawu Cynllun Toiledau Cymunedol, ond angen addasu a gwella cyflwr rhai o'r adeiladau – rhaid sicrhau bod y toiledau yn safonol
- Angen hysbysu a hyrwyddo toiledau cymunedol yn well
- Bod angen i unrhyw wybodaeth am doiledau sy'n cael ei roi ar y wefan fod yn gyfredol a bod fersiwn ar gael i'w argraffu
- Angen annog mwy o doiledau cymunedol – derbyn bod rhestr aros, ond angen adolygu'r sefyllfa
- Pellter rhwng toiledau yn bryder – a oes posib mapio fesul 10 milltir?
- Awgrym i gynnwys gwybodaeth ar ap Gwynedd
- Bod angen ystyried sefydliadau sydd yn cynnig oriau hwy a hyblyg
- Bod angen cyfleusterau cydradd – efallai ystyried nad oes angen dynodiad
- Posib creu dolen gyda Google Maps o leoliadau toiledau

- Targedu rhai busnesau ar brif ffyrdd i gynnig defnydd o'u toiledau.
- Bod mwy o sylw yn cael ei roi ar anghenion twristiaid; pobl leol sydd yn talu trethi

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag os yw'r cynllun toiledau cymunedol yn cynnig gwerth am arian, nodwyd bod gwerth i'r cynllun yn y darlun llawn ond bod cyfle i adolygu'r cynllun gan edrych i ardaloedd sydd heb adnodd. Nodwyd bod y cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i fod bellach yn arian sydd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r setliad blynyddol ac wedi ei warchod ar gyfer y defnydd yma yn unig. Nodwyd bod grant hefyd yn cael ei dderbyn gan yr Asiant Cefnffyrdd. Ategwyd bod modd adolygu'r niferoedd a hefyd y lleoliadau gan addasu yn ôl yr angen ynghyd a'r swm sydd yn cael ei dalu i bob busnes sydd yn rhan o'r cynllun. Nodwyd hefyd, yn dilyn y cyhoeddi'r Strategaeth ym Mai 2019 bydd darn o waith yn cael ei wneud i fapio ac adnabod y gwagle.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag uchafu safon a chyflwr y cyfleusterau, amlygwyd bod grant wedi ei dderbyn yn ddiweddar i uwchraddio 3 toiled oedd yn cynnwys cyfleusterau newid plant. Ategwyd bod gwaith yn cael ei wneud i ddenu cyllid i wneud gwaith uwchraddio ar 5 eiddo arall a bod grantiau yn rhoi cyfle i'r gwasanaeth edrych ar gyfleoedd newydd ac arloesol. Mewn ymateb i sylw bod y gwasanaeth yn ddibynnol ar grantiau i uwchraddio safon a chyflwr y toiledau a petai'r grant yn dod i ben byddai'r cyfrifoldeb a'r gost yn disgyn ar y Cyngor Cymuned, cadarnhawyd mai'r Cyngor sydd yn gyfrifol am gyflwr y toiledau.

Mewn ymateb i sylw am ddefnyddio Google Maps neu ap priodol, amlygwyd bod hyn yn rhan statudol o'r strategaeth a cham naturiol fyddai llunio ap.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan argymell i'r Aelod Cabinet gyfarch y sylwadau wrth lunio'r Strategaeth Doiledau terfynol**

## 7. TREFNIADAU RHEOLI PARCIO

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Eiddo yn manylu a'r drefniadau a chyfrifoldebau rheoli parcio'r Cyngor, allbynnau gwaith a'r heriau ar gyfer y dyfodol. Dengys y strwythur staffio bod y Gwasanaeth, ers 2012, wedi wynebu arbedion / toriadau sylweddol er yn ymateb i'r un llwyth gwaith. Amlygwyd bod y trefniadau talu ac arddangos sydd mewn bodolaeth mewn 60 o feysydd parcio y Sir, ynghyd a Thocynnau Parcio Blynyddol a'r taliadau a ddaw o orfodaeth parcio wedi arwain at incwm o £2.65m erbyn 2018/19. Nodwyd bod yr incwm yn rhan allweddol o incwm refeniw blynyddol y Cyngor ac yn cyfrannu tuag ar gynnal gwasanaethau. Yn unol â gofynion deddfwriaethol, bydd unrhyw incwm sydd yn cael ei gasglu o reoli parcio yn cael ei ail fuddsoddi yn y rhwydwaith priffyrdd.

Tynnwyd sylw at yr heriau ar gyfer y blynyddoedd i ddod ynghyd ar amrediad opsiynau ar gyfer sicrhau cynnydd yn yr incwm parcio. Os am gyfarch effaith chwyddiant a chyfrannu £180,000 tuag at y targed arbedion amlygwyd erbyn 2022/23 yr angen i'r incwm blynyddol fod oddeutu £450,000 yn uwch nag ydyw yn 2018/19.

Diolchwyd am y wybodaeth

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â cholled incwm o oddeutu £45,000 am gynnig parcio am ddim dros gyfnod y Nadolig, amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod angen ystyried trothwy amser cyn diddymu'r gwasanaeth
- Posib nad yw yn cynnig gwerth am arian gan mai gweithwyr 9 - 5pm sydd yn ei ddefnyddio?
- Angen ystyried dulliau fel nad yw gweithwyr yn ei ddefnyddio
- Angen gwell amseriad - diwedd Tachwedd - cyd fynd a Dydd Gwener Gwallgo'? Penwythnosau sydd yn rhedeg i fyny at y Nadolig?
- Cynnig nosweithiau parcio am ddim pan fydd digwyddiadau yn cael eu cynnal yn y dref
- Parcio am ddim yn gynllun da ac yn gefnogol i Fusnesau Lleol

Roedd yr Uwch Reolwr Eiddo yn derbyn y sylwadau a nodwyd bod bwriad i adolygu'r drefn bresennol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r graff apeliadau oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad a'r angen am wybodaeth fanylach am y nifer sydd yn cael ei dyrannu a'r nifer sydd yn cael eu herio, derbyniwyd bod y graff yn elfennol a bod modd cyflwyno data manylach.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sut fydd cyllido cyfleusterau gwefru ceir trydan adroddwyd y byddai'r cynllun yn debygol o gael ei ariannu drwy grantiau yn ystod y cyfnod cyntaf. Ategwyd bod y galw am y math yma o gyfleuster yn isel ar hyn o bryd, ond bod angen paratoi ymlaen llaw drwy gynnal gwaith asesu lleoliadau addas o fewn y Sir.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod angen amlygu gwahaniaeth rhwng perchnogaeth maes parcio preifat a maes parcio'r Cyngor
- Bod angen peiriannau dwbl sydd yn cynnig gwasanaeth talu gydag arian parod neu dalu gyda cherdyn
- Bod cyfansymiau cynnydd yn ffioedd parcio yn ymddangos yn anodd o ran ceiniogau / arian parod – angen cadw'r symiau yn syml
- Awgrym i gyflwyno talu am docyn parcio blynyddol mewn rhandaliadau misol
- Beth yw costau cynnal a chadw'r 57 maes parcio sydd yn ddi-dâl? A fyddai modd trosglwyddo'r adnodd i gymunedau lleol eu rheoli byddai yn lleihau costau i'r Cyngor?
- Angen sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol. Dim esgus nad yw peiriannau yn gweithio ar benwythnosau prysur!
- Bod angen cysoni ffioedd parcio ar draws y Sir
- Tocyn Parcio Lleol - a oes modd cynyddu criteria'r tocyn ar gyfer parcio mewn maes parcio tymor hir?
- Gyda galw cynyddol am orfodaeth, a oes modd ystyried gosod camerâu mewn rhai meysydd parcio fel bod modd rhyddhau swyddogion i orfodi mewn meysydd parcio eraill

Mewn ymateb i rai sylwadau uchod, amlygodd y swyddogion,

- Bod defnydd o gamerâu yn amhersonol, cudd a drudfawr ond yn opsiwn posib ar gyfer y dyfodol
- Bod galw cynyddol ar swyddogion i orfodi ystod eang o feysydd. Er bod modd cynnig gwasanaeth traws adrannol golygai hyn hyfforddiant dwys i'r swyddogion mewn nifer o feysydd deddfwriaethol. Ategwyd bod trafodaethau yn parhau ond bod angen symleiddio'r ddeddfwriaeth a phwyso a mesur materion ymarferol.
- Bod sicrhau a sefydlu tegwch mewn gosod ffioedd parcio ar draws y Sir

wedi bod yn un o'r prif ystyriaethau wrth gyflwyno trefniadau rheoli parcio yn 2015. Y bwriad yw parhau i geisio sefydlu cysondeb a thegwch drwy'r Sir wrth ystyried opsiynau posib o gynyddu'r incwm parcio i'r dyfodol.

- Bod modd cynnal trafodaethau 'achos wrth achos' gyda Chynghorau Cymuned / Tref ynglŷn â throsglwyddo cyfrifoldebau meysydd parcio di-dâl o fewn y Sir.
- Bydd modd cyflwyno amrediad o opsiynau posib wedi i'r Cyngor Llawn benderfynu ar gyllideb 2019/2020 ar y 7fed o Fawrth 2019.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gyda chais i'r swyddogion ystyried sylwadau'r Aelodau wrth ddarparu diweddariad maes o law ar yr amrediad opsiynau ar gyfer sicrhau cynnydd yn yr incwm parcio**

## 8. MATERION CYNLLUNIO A'R DREFN DIRPRWYO

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â gweithrediad y Cynllun Dirprwyo Cynllunio yng nghyd-destun Plas Pistyll, Pistyll, Pwllheli penderfyniad y Pwyllgor Craffu Cymunedau 13.12.2018 oedd gohirio'r mater fel bod modd derbyn adroddiad pellach fyddai'n cyfarch materion sylfaenol y cynllun dirprwyo, y rhiniogau ar gyfer derbyn cais newid amodau, rhiniogau'r cynllun dirprwyo ynghyd ag ymateb i sylwadau'r Aelodau a thystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Cyflwynwyd adroddiad oedd wedi ei baratoi ar y cyd gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd a Phennaeth yr Adran Gyfreithiol yn cyfarch yr argymhellion uchod.

Cynigiwyd ac eiliwyd i ohirio'r penderfyniad gan nad oedd sylwadau'r aelodau a thystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar y 13eg o Ragfyr 2018 wedi ei gynnwys yn yr adroddiad diwygiedig.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad yn ymateb i'r cofnod ac nad oedd y cofnod yn nodi'r angen i gynnal trafodaethau gydag aelodau unigol a chynnwys eu mewnbwn yn yr adroddiad. Ategwyd bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei graffu a bod cyfle i aelodau unigol herio a gofyn cwestiynau yn y cyfarfod.

Nododd y Cadeirydd, mai ei argraff ef oedd y byddai'r aelodau wedi cael eu cynnwys mewn trafodaethau gyda'r swyddogion a bod yn rhan o greu'r adroddiad.

Mewn ymateb nododd y Swyddog Monitro bod angen briff manwl ar gyfer yr hyn oedd angen ei gyflwyno i'r' Pwyllgor Craffu nesaf.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cynigiwyd yr angen i gynnwys y materion canlynol yn yr adroddiad:

- Bod y polisïau perthnasol yn cael eu dehongli yn glir
- Bod angen diffiniadau clir o eirfa dechnegol
- Angen ymateb i sylwadau a wnaed yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2018
- Bod angen cloriannu'r dystiolaeth a gyfeiriwyd atynt yn Rhagfyr 2018
- Bod angen rhoi ystyriaeth i ardaloedd /tirweddau nodedig
- Bod esiamplau yn yr adroddiad ddim yn berthnasol

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod rhaid dysgu gwersi gan sicrhau cyfeiriad pendant ac eglur

- Awgrym i gynnal trafodaeth bellach gydag aelodau unigol

**PENDERFYNWYD**

- **gohirio'r mater i'r cyfarfod nesaf**
- **bod cyfarfod anffurfiol yn cael ei gynnal rhwng y Cadeirydd Y Cynghorydd Seimon Glyn, Cynghorydd Aled Wyn Jones, Cynghorydd Gruffydd Williams, Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd) a'r Swyddogion perthnasol er mwyn cytuno ar y materion sydd angen eu cyfarch yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Ebrill y 4ydd 2019.**

## 9. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD

Gwahoddwyd Aelodau i fynegi diddordeb neu gynnig enwebiadau ar gyfer mynychu cyfarfodydd herio perfformiad Adran yr Amgylchedd.

Cynigwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Berwyn Parry Jones i gynrychioli'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd herio perfformiad Adran yr Amgylchedd**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 1.00 y.h.

**CADEIRYDD**